WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Cyhoeddwyd:** Chwefror 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 670A2011

# Statws yr adroddiad

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Ann-Marie Harkin, Matthew Coe a Carol Moseley ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.


Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 10 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu her ariannol sylweddol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac er bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian ychwanegol, mae perygl na chaiff yr arbedion cost gofynnol eu cyflawni | 10 |
| Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ac er bod rhagor o heriau i'w hwynebu o hyd, gwelir bod ffocws parhaus ar wella | 11 |
| Mae angen cymryd camau penodol mewn nifer o feysydd er mwyn gwella'r defnydd a wneir o theatrau llawdriniaethau a chynyddu cyfraddau llawdriniaeth ddydd | 13 |
| Mae'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol wedi arwain at welliannau, ond mae angen gwneud rhagor mewn rhai meysydd o hyd | 14 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 18 |
| Ffi archwilio | 20 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2011.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio'r cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

5. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:
   - un camddatganiad nas cywirwyd nad oedd yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd mewn unrhyw ffordd berthnasol;
   - argymhellion ar gyfer gwella'r ffordd y caiff darpariaeth Gofal Iechyd Parhaus ei chyfrifo;
   - yr angen am gymeradwyaeth briodol wrth setlo rhwymedigaeth treth tanwydd;
   - y diweddaraf ar y sefyllfa sydd ohoni ledled Cymru o ran cyfrifyddu am amnewid asedau sefydlog o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 16.
6. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad.
7. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11, ar ôl iddo gyhoeddi arbedion o £55 miliwn a chael £24 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**8.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd o feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu her ariannol sylweddol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac er bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian ychwanegol, mae perygl na chaiff yr arbedion cost gofynnol eu cyflawni;
- yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau o hyd;
- mae angen cymryd camau penodol mewn nifer o feysydd er mwyn gwella'r defnydd a wneir o theatrau llawdriniaethau a chynyddu cyfraddau llawdriniaeth ddydd;
- mae'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol wedi arwain at welliannau, ond mae angen gwneud mwy mewn rhai meysydd o hyd.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

**9.** Cafwyd cytundeb y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ar yr adroddiad hwn ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Ionawr 2012. Caiff ei gyflwyno nawr yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk)).

**10.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**11.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Tachwedd 2011.

**12.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**13.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a ystyriodd y trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**14.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**15.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**16.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr *Amlinelliad o'r Archwiliad ar gyfer 2011*.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**17.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**18.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**19.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**20.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
- systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**21.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a roddwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac

ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Mae ansawdd y datganiadau ariannol drafft ac eglurder a chysondeb y papurau gwaith a ddarparwyd i'w harchwilio wedi gwella'n sylweddol o gymharu â'r llynedd o ganlyniad i waith cynnar ychwanegol rhyngom ni a staff yr Adran Gyllid.

**22.** Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 6 Mehefin 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Digwyddiad ôl-fantolen | Daeth achos o esgeuluster clinigol,a oedd yn mynd rhagddo ar 31 Mawrth 2011, i ben ar ôl diwedd y flwyddyn. Yn ein barn ni, dylai'r ddarpariaeth ar gyfer esgeuluster clinigol a dyledwyr Cronfa Risg Cymru fod wedi cynyddu £2.4 miliwn i adlewyrchu'r setliad hwn.<br>Nid addasodd y Bwrdd Iechyd y datganiadau ariannol gan na fu unrhyw newid yn y sefyllfa ariannol gyffredinol, ond cafodd datgeliadau ychwanegol eu cynnwys i egluro'r sefyllfa. |
| Balansau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Gan fod y Bwrdd Iechyd yn rhannu risgiau ariannol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru â holl fyrddau iechyd lleol Cymru, mae angen sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau sy'n deillio o'r archwiliad o'r Pwyllgor hwnnw yn cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol pob bwrdd iechyd lleol. Cafwyd cadarnhad gan y tîm a fu wrthi'n archwilio Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru nad oedd unrhyw faterion wedi codi o'i archwiliad o'r Pwyllgor a oedd yn effeithio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd. |
| Darpariaeth Gofal Iechyd Parhaus | Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi gwneud llawer o waith yn 2010-11 i wella'r systemau i gofnodi, prosesu a meintioli hawliadau gofal iechyd parhaus, ond cytunwyd bod angen gwella'r gronfa ddata sy'n ategu'r ddarpariaeth hon ymhellach yn 2011-12. |
| Rhwymedigaeth treth buddion tanwydd | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gael canllawiau penodol a chymeradwyaeth briodol gan Lywodraeth Cymru cyn iddo geisio setlo rhwymedigaeth treth ychwanegol sy'n deillio o adolygiad o fuddion tanwydd ceir prydles gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. |
| Cymhwyso safonau cyfrifyddu yn y dyfodol | Efallai y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddiwygio ei ddull o gyfrifyddu asedau wedi'u hamnewid o hyd unwaith y ceir eglurhad o'r newidiadau i'r safonau cyfrifyddu ar lefel Cymru gyfan. |

## Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**23.** Wrth ystyried yr amgylchedd rheolaeth fewnol, rwy'n asesu trefniadau sy'n cynnwys rheolaethau lefel uchel dros y prif systemau cyfrifyddu a rheolaeth gyllidebol, gwaith a rôl y gwasanaeth archwilio mewnol a gwaith y Pwyllgor Archwilio sy'n chwarae rhan amlwg yn adolygu ac yn cryfhau'r amgylchedd rheolaeth fewnol.

**24.** Cafwyd gennyf fod y rheolaethau'n gweithio mor effeithiol ag y bwriadwyd ac felly roedd modd dibynnu arnynt wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

**25.** Ar y cyfan, roedd gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â safonau archwilio mewnol y GIG yng Nghymru, ac yn ategu barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, fel y cafodd y Pwyllgor Archwilio wybod ym mis Mehefin 2011. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio i gydymffurfio'n llawn â'r safonau diwygiedig.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad

**26.** Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nodwyd mân-feysydd i'w gwella yn ystod yr archwiliad a gwnaed argymhellion i'r rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain.

## Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11, ar ôl iddo gyhoeddi arbedion o £55 miliwn a chael £24 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

**27.** Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2010-11, nododd y Bwrdd Iechyd fwlch ariannu o £77.4 miliwn a'i fwriad oedd cau'r bwlch hwnnw drwy raglen o gyfyngu ar gostau a gwneud arbedion ariannol. Datblygwyd y rhaglen gwella costau hon a chytunwyd arni mewn ffordd gynhwysol gyda'r Cyfarwyddiaethau a'r Ardaloedd. Cafodd y rhaglen ei monitro'n ofalus a'i diwygio yn ystod y flwyddyn, a sicrhawyd £55 miliwn o arbedion arfaethedig yn unol â thargedau'r rhaglen.

**28.** Derbyniodd y Bwrdd Iechyd £24 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn hefyd. O ganlyniad i'r arian ychwanegol hwn, ynghyd â'r £55 miliwn o arbedion, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei darged statudol i fantoli'r gyllideb yn 2010-11 a chynhyrchu gwarged o £347,000 ar gyfer y flwyddyn. Nododd y Bwrdd Iechyd fod ymgysylltu â staff clinigol, gwaith cynllunio da a chyfathrebu wedi bod yn ffactorau allweddol wrth gyflawni hyn.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**29.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at gyflawni balans ariannol;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd gennym yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd;
- ystyried perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran y defnydd o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau llawdriniaeth ddydd;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn sgîl gwaith archwilio blaenorol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau, Gofal Heb ei Drefnu, Gwasanaethau Mamolaeth a Threfniadau Staffio Wardiau.

**30.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu her ariannol sylweddol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac er bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian ychwanegol, mae perygl na chaiff yr arbedion cost gofynnol eu cyflawni

**31.** Yn fy adroddiad, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011, nodais fod y GIG yng Nghymru yn wynebu'r setliad ariannol llymaf yn y DU, pwysau costau cynyddol a bwlch ariannu sylweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a thu hwnt. Yn wahanol i rannau eraill o'r DU, mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu toriadau ariannol mewn termau real os cymeradwyir cynigion cyllidebol presennol Llywodraeth Cymru.

**32.** Er mwyn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2011-12, nododd y Bwrdd Iechyd fod angen iddo gyflawni arbedion cost o £62.9 miliwn. Rhoddwyd rhaglen i sicrhau arbedion o £42.9 miliwn ar waith a chydnabuwyd diffyg o £20 miliwn ers dechrau'r flwyddyn ariannol. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddyrannu £17 miliwn o arian ychwanegol ac, o ganlyniad i hyn, disgwylir y bydd diffyg o £3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

**33.** Er yr ystyrir bod modd cyflawni'r rhan fwyaf o'r cynlluniau a nodwyd i arbed costau, ni lwyddwyd i nodi arbedion cost o £3 miliwn hyd yma. Yn ogystal, ar ddiwedd mis Medi 2011, dywedwyd mai £17.5 miliwn oedd swm yr arbedion gwirioneddol o gymharu â'r ffigur o £19 miliwn a ragwelwyd, gyda diffygion sylweddol mewn perfformiad o ran sicrhau arbedion drwy foderneiddio'r gweithlu.

**34.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod ailgynllunio a moderneiddio'r gweithlu yn hollbwysig i'w sefydlogrwydd ariannol, ac mae wedi comisiynu CHKS i'w helpu i nodi meysydd y gellir eu gwella. Mae targedau effeithlonrwydd gwahaniaethol hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer y dyfodol fel bod targedau o ran arbedion yn adlewyrchu blaenoriaethau o ran perfformiad a gwasanaethau yn well.

**35.** Fodd bynnag, mae rhyw £5 miliwn o'r arbedion a nodwyd yn rhai anghylchol, sy'n golygu y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd nodi ffynonellau eraill o arbedion effeithlonrwydd er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol, o gofio ei bod yn debygol y bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.

## Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ac er bod rhagor o heriau i'w hwynebu o hyd, gwelir bod ffocws parhaus ar wella

**36.** Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd nodais fod angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu rhai agweddau ar ei drefniadau corfforaethol a'u datblygu ymhellach. Eleni, rwyf wedi adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu, ac mae'n parhau i wneud hynny, ond mae angen gwneud rhagor mewn rhai meysydd allweddol

**37.** Dengys y gwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn gyffredinol. Er bod angen datblygu rhai meysydd ymhellach, mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd wedi parhau i ddatblygu ac fe'u hatgyfnerthwyd drwy'r ffyrdd canlynol:

- gwaith ymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynlluniau strategol ar gyfer y gymuned iechyd, a chydberthnasau adeiladol â'r Cyngor Iechyd Cymuned;
- ffocws cynyddol ar nodi mesurau ar gyfer canlyniadau a phrofiadau cleifion;
- gwaith i ddatblygu fframweithiau Sicrwydd a Llywodraethu Clinigol y Bwrdd;
- dull o reoli risg sy'n datblygu, gyda gwybodaeth well am natur a maint y risgiau corfforaethol y cytunwyd arnynt;
- gwaith i ddatblygu dull mwy systematig a phenodol o gynnal archwiliad clinigol a sicrhau ei fod yn rhan fwy sylfaenol o fframwaith sicrwydd y Bwrdd drwy gyfrannu mwy at raglenni archwilio cenedlaethol;

- gwaith i wella fformat adroddiadau ar berfformiad a rhoi gwybodaeth well am reoli perfformiad i'r Bwrdd.

**38.** Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i atgyfnerthu ei waith cynllunio strategol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynlluniau integredig o ran gallu ac adnoddau, drwy sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng gweithgareddau cynllunio gallu ac adnoddau, cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu, sy'n gysylltiedig ag amcanion a blaenoriaethau corfforaethol clir, a thrwy atgyfnerthu gwaith rheoli perfformiad.

**39.** Ceir meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach hefyd, gan gynnwys:

- parhau i ddatblygu dull y Bwrdd Iechyd o reoli risg a sicrhau bod risgiau corfforaethol yn gyson ag amcanion strategol a gweithredol;
- parhau i ddatblygu'r rhaglen archwilio clinigol a sicrhau bod y rhaglen waith yn gwbl gyson â blaenoriaethau corfforaethol;
- parhau i atgyfnerthu'r trefniadau adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd a rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd fod camau a nodwyd i sicrhau gwelliant yn cael yr effaith a fwriadwyd.

**40.** Yn ystod 2011, adolygodd y Bwrdd Iechyd y strwythur is-bwyllgorau. Sefydlwyd Grŵp Risg a Llywodraethu Clinigol a datblygwyd Fframwaith Polisi Llywodraethu Clinigol. Mae'r fframwaith yn mapio'r cydberthnasau adrodd rhwng is-bwyllgorau ffurfiol y Bwrdd a'r grwpiau rheoli a'r pwyllgorau sy'n adrodd iddynt. Mae'r datblygiad hwn yn helpu'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r pryderon a nodais y llynedd ynghylch egluro rolau pob pwyllgor a'r is-grwpiau rheoli sydd oddi tanynt, a'u cydberthynas â'i gilydd. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y llinellau adrodd rhwng grwpiau a phwyllgorau'n gweithredu'n effeithiol.

**41.** O ran y GIG yng Nghymru, caiff y Datganiad ar Reolaeth Fewnol ei ddisodli gan Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2011-12. Bydd angen i'r Datganiad Llywodraethu fod yn rhan annatod o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ochr yn ochr â'r Safonau Gofal Iechyd, a bydd angen ei ategu â dealltwriaeth fwy cyson o'r fframwaith sicrwydd cyffredinol ym mhob rhan o'r sefydliad.

**42.** Nodir hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi adolygu strwythur ei gyfarwyddiaeth acíwt fel rhan o broses i leihau nifer y rhyngwynebau, cynyddu hyblygrwydd ariannol a hyblygrwydd o ran gwasanaethau a chynyddu gallu ac adnoddau rheoli i'r eithaf. Sefydlwyd strwythurau ardal ac mae timau ardal yn cydweithredu ac yn rhannu adnoddau'n gynyddol er mwyn defnyddio gallu, adnoddau ac arbenigedd yn well. Mae gwaith i ddatblygu rhwydweithiau cymunedol yn mynd rhagddo'n dda. Ceir rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod mwy o waith integredig rhwng ardaloedd/ cyfarwyddiaethau yn digwydd mewn perthynas â llwybrau cleifion, ac mae newidiadau i atgyfnerthu rhyngwynebau gweithredol ar droed yn 2012 a ddylai helpu i reoli materion trawsbynciol.

### Mae tystiolaeth o gynnydd yn nifer o'r swyddogaethau sy'n ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus, ond erys rhai heriau

**43.** Ystyriodd fy ngwaith y cynnydd a wnaed o ran cynllunio'r gweithlu, rheoli ystadau, rheoli gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a dangosodd y canlynol:

- mae gwaith cynllunio'r gweithlu wedi gwella o gymharu â'r llynedd, ac mae strategaeth gwybodaeth am y gweithlu yn cael ei datblygu i atgyfnerthu gwaith cynllunio yn y dyfodol;
- mae'r ystad ysbytai yn cael ei had-drefnu yn unol â chynlluniau strategol y cytunwyd arnynt ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gymryd camau i wella'r ystad, er enghraifft, drwy barhau i fuddsoddi yn y gwaith o ailddatblygu Ysbyty Treforys;
- mae polisi i gefnogi dulliau caffael cynaliadwy yn cael ei ddatblygu, gyda staff Ystadau yn cael hyfforddiant ar asesu risg o ran cynaliadwyedd;
- caiff y gwasanaeth technoleg rheoli gwybodaeth ei ddarparu'n effeithiol, ymgysylltir yn dda â mentrau TG cenedlaethol a datblygwyd strategaeth gwybodaeth glinigol;
- gwnaed cynnydd da o ran y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd a'i Awdurdodau Lleol partner yn cydweithio ar lefel sefydliadol a gweithredol;
- cymerir camau rhagweithiol i 'wrando' ar brofiadau cleifion ac ymgysylltu a chyfathrebu â staff.

**44.** Erys rhagor o heriau mewn rhai meysydd hefyd, gan gynnwys:

- parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pob aelod o staff yn cael arfarniad blynyddol;
- datblygu strategaeth(au) gwybodaeth i gwmpasu'r holl anghenion gwybodaeth, sy'n gysylltiedig ag amcanion corfforaethol ac anghenion busnes;
- ystyried sut y gall gwybodaeth a thechnoleg helpu i wella busnes a phrosesau cynllunio ymhellach;
- cefnogi a datblygu gallu ac adnoddau mewn ardaloedd a chyfarwyddiaethau i gyflwyno newidiadau trawsnewidiol drwy ddulliau newydd o weithio.

## Mae angen cymryd camau penodol mewn nifer o feysydd i wella'r defnydd a wneir o theatrau llawdriniaethau a chynyddu cyfraddau llawdriniaeth ddydd

**45.** Fel rhan o'm gwaith i bennu lle y gall y Bwrdd Iechyd gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, rwyf wedi ystyried y defnydd a wneir o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau llawdriniaeth ddydd. Cymharodd y gwaith hwn berfformiad â sampl o ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr.

46. Dangosodd y gwaith, er bod rhai camau wedi'u cymryd i wella'r ffordd y defnyddir theatrau llawdriniaethau, fod angen gweithredu'n gyflymach ac mewn ffordd fwy cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r perfformiad cymharol wael a'r pryderon a godwyd gan staff. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodais y canlynol:

- tra bod cyfraddau llawdriniaeth arhosiad byr yn gymharol uchel, mae'r defnydd a wneir o theatrau yn gyffredinol a chyfraddau achosion dydd yn gymharol isel o fewn y Bwrdd Iechyd ac er bod rhai camau wedi'u cymryd i wella perfformiad, gellir gwneud llawer mwy;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd strategol theatrau, ond mae gwendidau i'w gweld yn y prosesau cynllunio a rheoli strategol ar gyfer theatrau;
- ar y cyfan, mae'r staff yn gadarnhaol am y diwylliant diogelwch a gwaith tîm ond codwyd pryderon am gyfathrebu a morâl;
- mae gan y Bwrdd Iechyd systemau data da o ran theatrau ac mae gwybodaeth ar gael yn hawdd ond mae'n cydnabod bod angen gwella ei ddull o reoli perfformiad.

47. Tynnodd yr archwiliad sylw at nifer o faterion penodol yr oedd angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â hwy. Ers diwedd yr archwiliad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cyfres o gamau gweithredu penodol i helpu i fynd i'r afael â'r argymhellion a ddeilliodd o'm gwaith archwilio. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r rhaglen genedlaethol, Trawsnewid Theatrau, i helpu i lywio ac ysgogi gwelliannau o ran perfformiad theatrau.

48. Gyda'i gilydd, mae hwn yn ymateb cadarnhaol ar ran y Bwrdd Iechyd i wella ei berfformiad o ran theatrau llawdriniaethau. Bydd gwaith archwilio dilynol yn cael ei wneud yn 2012 i ystyried i ba raddau mae'r gwelliannau a nodwyd wedi cael eu cyflawni.

## Mae'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol wedi arwain at welliannau, ond mae angen gwneud rhagor mewn rhai meysydd o hyd

49. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol yn Arddangosyn 3.

### Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad

<table>
<tr><th>Maes y gwaith dilynol</th><th>Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad</th></tr>
<tr><td>Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau</td><td>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi rotâu meddygon iau sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar waith ac ategir hyn gan ffyrdd amgen o weithio ond mae angen monitro gwir oriau gwaith meddygon iau yn ofalus a'r goblygiadau o ran gofal cleifion. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodais y canlynol:<ul><li>mae pob un o rotâu meddygon iau y Bwrdd Iechyd, mewn egwyddor, bellach yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd;</li><li>mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ffyrdd amgen o weithio er mwyn lleihau oriau gwaith meddygon iau, ond nid ar sail gyson eto, ac mae pryderon sylweddol ynghylch effaith cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar ofal cleifion;</li><li>mae trefniadau monitro rotâu ar waith ond gellid eu gwella a cheir tystiolaeth na chaiff oriau gwaith eu cofnodi'n gywir bob amser;</li><li>caiff materion yn ymwneud â chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd a materion yn ymwneud â chyflawni eu hystyried ar lefelau amrywiol ond nid ydynt yn rhan o fframwaith adroddiadau'r Bwrdd ar hyn o bryd.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Gofal Heb ei Drefnu<br>(Gwaith Dilynol Rhagarweiniol)</td><td>Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran gwella gwasanaethau gofal heb ei drefnu a gweithredu argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ond mae angen iddo barhau i flaenoriaethu'r gwaith hwn a chynnal y gwelliannau a wnaed hyd yma. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:<ul><li>mae'r Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu Gofal Heb ei Drefnu ac wedi ystyried argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, gan eu defnyddio i lywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu datblygu;</li><li>er bod data ar berfformiad yn dangos bod gwelliannau'n cael eu gwneud, mae targedau allweddol ar gyfer rhannau gwahanol o'r llwybr gofal heb ei drefnu yn cael eu methu o hyd;</li><li>mae gwaith ar y cyd a gwaith integredig â sefydliadau partner yn gwella gwasanaethau gofal heb ei drefnu a chaiff cynlluniau gwella gwasanaethau eu datblygu a'u rhoi ar waith;</li><li>mae tystiolaeth bod cynnydd yn cael ei wneud o ran mentrau i wella pwyntiau mynediad at wasanaethau gofal heb ei drefnu;</li><li>mae gwaith yn mynd rhagddo i ddylunio/ailddylunio</li></ul></td></tr>
</table>

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| | llwybrau cleifion ar gyfer cyflyrau cyffredin sy'n galw am ofal heb ei drefnu ac mae'n rhaid parhau i roi blaenoriaeth i'r gwaith hwn;<br>• prin yw'r dystiolaeth bod cynnydd yn cael ei wneud o ran datblygu systemau gwybodaeth cydlynol;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd sylweddol o ran adolygu ei weithlu gofal heb ei drefnu ac mae wrthi'n ailddylunio ac yn ad-drefnu trefniadau staffio i ddiwallu'r angen a nodwyd.<br>Mae gwaith dilynol manylach yn yr arfaeth. |
| Gwasanaethau Mamolaeth | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran creu gwasanaeth mamolaeth integredig, gwell, ond mae angen gwneud rhagor o waith a chynnal y momentwm. Nodir y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod:<br>• cydnabyddir bod gwasanaethau mamolaeth yn flaenoriaeth uchel;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran nodi, casglu a defnyddio'r wybodaeth sydd ei hangen arno i'w helpu i gynllunio a rheoli'r gwasanaeth mamolaeth;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon ar y model strategol cyffredinol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ac yn cydnabod bod angen iddo barhau i ymateb i newidiadau o ran galw;<br>• mae systemau datblygedig ar waith i helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ond nid yw nifer y staff obstetrig sydd ar gael wrth gefn yn y ward esgor yn bodloni'r lefelau a argymhellir eto;<br>• mae'r gwasanaethau a gynigir o ran gofal mamolaeth yn gwella a cheir llai o ymyriadau a mwy o gymorth i fwydo ar y fron ond mae angen mynd i'r afael ag amrywiadau o ran trefniadau bydwreigiaeth cymunedol. |
| Meincnod Cymharol Lefelau Staffio Wardiau | Mae lefelau staffio wardiau wedi cynyddu ers 2008 ac maent bellach yn agos i'r cyfartaledd meincnod, ond mae lle i ailgydbwyso lefelau staffio wardiau rhwng ysbytai a wardiau ymhellach. Mae'r cymysgedd graddau cyffredinol yn nodweddiadol o'r meincnod ac o gymharu, dibynnir llai ar staff dros dro. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:<br>• mae lefelau staffio wardiau cyffredinol wedi cynyddu rhwng 2010 a 2011;<br>• mae lefelau staffio wardiau cyffredinol bellach yn agos i'r cyfartaledd meincnod ond erys lle i ailddosbarthu staff rhwng ysbytai a wardiau; |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| | • mae'r cymysgedd graddau cyffredinol yn nodweddiadol o'r meincnod ar gyfer canran y staff cymwysedig;<br>• ymddengys fod y darpariaethau a wneir ar gyfer absenoldebau yn rhesymol o gymharu â'r meincnod;<br>• mae nifer y staff parhaol yn debyg i'r cyfartaledd meincnod ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi staff parhaol mewn cyfran uwch o'i sefydliadau;<br>• ymddengys fod gwahaniaethau yng nghyfanswm y staff o gymharu â'r cyfartaledd meincnod yn adlewyrchu'r ffaith y gwneir llai o ddefnydd o staff dros dro. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA 260) | Mehefin 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Dilysu Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Awst 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno yn yr Adroddiad Blynyddol | Medi 2011 |
| Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol i Reolwyr | Medi 2011 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwaith dilynol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau | Gorffennaf 2011 |
| Gwaith dilynol ar Ofal Heb ei Drefnu Rhagarweiniol | Gorffennaf 2011 |
| Gwaith dilynol ar Wasanaethau Mamolaeth | Awst 2011 |
| Effeithlonrwydd o ran theatrau a pherfformiad llawdriniaeth ddydd | Awst 2011 |
| **Cyflwyniadau ar archwiliadau perfformiad** | |
| Meincnod cymharol Lefelau Staffio Wardiau | Rhagfyr 2011 |
| Asesiad Strwythuredig 2011 | Ionawr 2012 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Mawrth 2011 |

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith. Amcangyfrifaf y bydd yr holl waith archwilio perfformiad a nodwyd yn fy *Amlinelliad o Waith Archwilio* ym mis Mawrth 2011 yn cael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2011-12.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Asesiad Strwythuredig 2011 (cyflwyniad) | Ionawr 2012 |
| Adfer mewn /Parhad Busnes | Ionawr 2012 |
| Ansawdd Data | Chwefror 2012 |
| Gweithdy llywodraethu gydag aelodau o'r Pwyllgor Archwilio | Chwefror 2012 |
| Gwaith dilynol ar Feincnod Cymharol Lefelau Staffio Wardiau | Mawrth 2012 |
| Rheoli Cyflyrau Cronig | Mawrth 2012 |
| Gwaith Dilynol Manwl ar Ofal heb ei Drefnu | Mawrth 2012 |
| Ymgysylltu Clinigol | Mawrth 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr *Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011* ffi archwilio arfaethedig o £452,330 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffigur hwn, yn seiliedig ar y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd. At hyn, ad-dalwyd £26,320 i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â rhai elfennau o gynllun y flwyddyn flaenorol, a bu angen gwneud rhywfaint o waith ychwanegol hefyd. Ceir rhagor o wybodaeth isod.

| Prosiect | Cynlluniau ar gyfer datblygu gwaith |
|---|---|
| Gwaith Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng TG | Bwriedir gwneud y gwaith hwn o hyd ond caiff ei ariannu gan ffi archwilio 2011. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, mae cynlluniau ar gyfer gwaith i weithredu canllawiau cenedlaethol Caldicott wedi cael eu gohirio a chânt eu hystyried bellach fel rhan o'r ymarfer cynllunio ar gyfer ein rhaglen waith yn 2012. |
| Gwaith dilynol ar Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed | Bwriadwyd defnyddio ychydig o amser yng nghynllun 2010 i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran materion a ddeilliodd o'r adroddiad cenedlaethol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn 2009 a oedd yn ymwneud yn benodol ag iechyd.<br>Fodd bynnag, o gwmpasu'r gwaith hwn, a siarad ag arolygiaethau eraill, daeth yn amlwg y byddai'n well pe câi'r gwaith hwn ei wneud fel archwiliad cenedlaethol gan yr Archwilydd Cyffredinol. O ganlyniad, mae'r gwaith wedi cael ei ddileu o'r rhaglen archwilio perfformiad leol ac mae'r ffi gysylltiedig wedi cael ei had-dalu. |
| Prosiect lleol ar Ofal Iechyd Parhaus | Mae'r prosiect hwn wedi'i ganslo ac mae'r ffi gysylltiedig wedi cael ei had-dalu. Bwriadaf fwrw ymlaen â'r gwaith ar Ofal Iechyd Parhaus fel astudiaeth genedlaethol. |
| Gofal Heb ei Drefnu | Gan fod gwaith dilynol manwl ar Ofal Heb ei Drefnu yn cael ei wneud fel rhan o gynllun archwilio 2011, ad-dalwyd yr elfen o ffi 2010 nas defnyddiwyd. |
| Meincnod lefelau staffio wardiau | Bu'n rhaid ailgynnal yr adolygiad meincnod o lefelau staffio wardiau o ganlyniad i wallau yn y data a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd. |

Bu'n rhaid ailgynnal yr adolygiad meincnod o lefelau staffio wardiau o ganlyniad i wallau yn y data a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd. Felly, cafodd yr ad-daliad o £36,190 ar gyfer y prosiectau uchod ei leihau i £26,320 er mwyn rhoi cyfrif am y gwaith ychwanegol y bu'n rhaid ei wneud ar y meincnod lefelau staffio.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, codwyd £18,269 am y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes, sydd hefyd yn unol â'r swm a nodir yn yr *Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011.*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk